

The Trefeca Declaration

We reaffirm our commitment to journeying together in covenant relationship.

We remain committed to the goal of the journey being the visible unity of the Church in the way that Christ wills.

As covenanted partners, within the family of Cytun, we commit ourselves during the six-year period 2005-2011 to:

- a fuller sharing in one another's ministries, making the best possible use of the provisions of each church;
- always undertaking new work jointly, except where in conscience we must do so separately;
- pooling resources in order to provide a united witness to Wales; and
- listening to what the nation is saying to the Church.

Datganiad Trefeca

Yn 2005 ymrwymodd yr enwadau o fewn Comisiwn yr Eglwysi Cyfamodol i gyd-deithio mewn perthyns gyfamodol tuag at yr amcanion isod. Dyma eiriau'r datganiad wnaed yr adeg honno.

Dyma Ddatganiad Trefeca

Datganwn o'r newydd ein hymrwymiad i gyd-deithio mewn perthynas gyfamodol. Parhawn i fod yn ymrwymedig i nod ein taith, sef undod gweladwy yr Eglwys. Yn bartneriaid Cyfamodol, o fewn teulu Cytûn, fe ymrwymwn ein hunain yn ystod y cyfnod chwe blynedd 2005-2011 i:

- rannu yn llawnach yng ngweinidogaethau ein gilydd, gan wneud y defnydd gorau posibl o ddarpariaethau pob eglwys;
- ymgymryd â gwaith newydd gyda'n gilydd bob tro, ag eithrio lle bo raid i ni ar dir cydwybod wneud hynny ar wahan;
- cydgrynhoi adnoddau er mwyn tystiolaethu yn Unedig i Gymru; a
- gwrando ar yr hyn y mae'r genedl yn dweud wrth yr Eglwys.

The 1975 Covenant

Confessing our faith in Jesus Christ as Lord and Saviour, and renewing our will to serve his mission in the world, our several churches have been brought into a new relationship with one another.

Together we give thanks for all we have in common.

Together we repent the sin of perpetuating our division.

Together we make known our understanding of the obedience to which we are called.

I

a. We recognise in one another the same faith in the gospel of Jesus Christ found in Holy Scripture, which the creeds of the ancient Church and other historic confessions are intended to safeguard. We recognise in one another the same desire to hold this faith in all its fullness.

b. We intend so to act, speak and serve together in obedience to the gospel that we may learn more of its fullness and make it known to others in contemporary terms and by credible witness.

II

a. We recognise in one another the same awareness of God's calling to serve his gracious purpose for all mankind, with particular responsibility for this land and people.

b. We intend to work together for justice and peace at home and abroad, and for the spiritual and material well-being and personal freedom of all people.

III

a. We recognise one another as within the one Church of Jesus Christ, pledged to serve His Kingdom, and sharing in the unity of the Spirit.

b. We intend by the help of the same Spirit to overcome the divisions which impair our witness, impede God's mission, and obscure the gospel of man's salvation, and to manifest that unity, which is in accordance with Christ's will.

IV

a. We recognise the members of all our churches as members of Christ in virtue of their common baptism and common calling to participate in the ministry of the whole Church.

b. We intend to seek that form of common life which will enable each member to use the gifts bestowed upon him in the service of Christ's Kingdom.

V

- a. We recognise the ordained ministries of all our churches as true ministries of the word and sacraments, through which God's love is proclaimed, his grace mediated, and his Fatherly care exercised.
- b. We intend to seek an agreed pattern of ordained ministry which will serve the gospel in unity, manifest its continuity throughout the ages, and be accepted as far as may be by the Church throughout the world.

VI

- a. We recognise in one another patterns of worship and sacramental life, marks of holiness and zeal, which are manifestly gifts of Christ.
- b. We intend to listen to one another and to study together the witness and practice of our various traditions, in order that the riches entrusted to us in separation may be preserved for the united Church which we seek.

VII

- a. We recognise in one another the same concern for the good government of the Church for the fulfilment of its mission.
- b. We intend to seek a mode of Church government which will preserve the positive values for which each has stood, so that the common mind of the Church may be formed and carried into action through constitutional organs of corporate decision at every level of responsibility.

We do not yet know the form union will take.

We approach our task with openness to the Spirit.

We believe that God will guide his Church into ways of truth and peace, correcting, strengthening and renewing it in accordance with the mind of Christ.

We therefore urge all our members to accept one another in the Holy Spirit as Jesus Christ accepts us, and to avail themselves of every opportunity to grow together through common prayer and worship in mutual understanding and love so that in every place they may be renewed together for mission.

Accordingly we enter now into this solemn Covenant before God and with one another, to work and pray in common obedience to our Lord Jesus Christ, in order that by the Holy Spirit we may be brought into one visible Church to serve together in mission to the glory of God the Father.

The Committee of the Covenanted Baptist Churches in Wales
The Church in Wales
The Methodist Church

The Presbyterian Church of Wales The United Reformed Church

Cyfamod 1975

Gan gyffesu ein ffydd yn Iesu Grist fel Arglwydd a Gwardwr, a chan adnewyddu ein hewyllys i'w wasanaethu ef mewn cenhadaeth yn y byd, y mae ein gwahanol eglwysi wedi eu dwyn i berthynas newydd a'i gilydd.

Diolchwn am y cwbl sydd gennym yn gyffredin rhyngom.

Gyda'n gilydd yr ydym yn edifarhau am y pechod o barhau ein hymraniad.

Gyda'n gilydd gwnawn yn hysbys pa fodd yr ydym yn deall yr ufudd-dod y'n gelwir ni iddo.

I

a. Cydnabyddwn yn ein gilydd yr un ffydd yn efengyl Iesu Grist yr hon a geir yn yr Ysgrhythur Lân, yr hon y bwriadwyd i gredoau'r Eglwys gynnar a chyffesiadau hanesyddol eraill ei gwarchod. Cydnabyddwn yn ein gilydd yr un awydd i gynnal y ffydd hon yn ei chyflawnder.

b. Bwriadwn weithredu, llefaru a gwasanaethu gyda'n gilydd mewn ufudd-dod i'r efengyl yn y fath fodd ag i ddysgu mwy o'i chyflawnder a'i gwneuthur yn hysbys i eraill mewn iaith gyfoes a thrwy dystiolaeth gredadwy.

II

a. Cydnabyddwn yn ein gilydd yr un ymwybyddiaeth o alwad Duw i wasanaethu ei bwrpas grasol ar gyfer dynoliaeth oll, gyda chyfrifoldeb arbennig am y wlad a'r bobl hyn.

b. Bwriadwn gydweithio er mwyn cyfiawnder a heddwch gartref ac oddi cartref ac er mwyn ffyniant ysbrydol a materol a rhyddid personol yr holl bobloedd.

III

a. Cydnabyddwn ein gilydd ein bod o fewn i un Eglwys Iesu Grist, wedi ymdynghedu i wasanaethu ei Deyrnas, ac yn cyfranogi o undeb yr Ysbryd.

b. Bwriadwn drwy gymorth yr un Ysbryd oresgyn yr ymraniadau sy'n niweidio ein tystiolaeth, yn llesteirio cenhadaeth Duw, ac yn cuddio efengyl iechydwrriaeth dyn, a bwriadwn amlygu'r undeb hwnnw sy'n unol ag ewyllys Crist.

IV

a. Cydnabyddwn aelodau ein eglwysi yn aelodau o Grist yn rhinwedd eu bedydd cyffredin a'u galwad gyffredin i gyfranogi yng ngweinidogaeth yr holl Eglwys.

b. Bwriadwn geisio ffurf ar fywyd cyffredin a alluoga bob aelod i arfer y doniau a roddwyd iddo yng ngwasanaeth Teyrnas Crist.

V

a. Cydnabyddwn weinidogaethau ordeiniedig ein holl eglwysi yn weinidogaethau gwirioneddol y gair a'r sacramentau, trwy y rhai y cyhoeddir Cariad Duw, y cyfryngir ei ras, ac y gweinyddir ei ofal Tadol.

b. Bwriadwn geisio patrwm o weinidogaeth ordeiniedig y cytunir arno, yr hwn a wasanaetha'r efengyl mewn undeb, a arddengys ei pharhad drwy'r oesoedd, ac a dderbynnir cyn belled ag y gellir gan yr Eglwys drwy'r byd oll.

VI

a. Cydnabyddwn yn ein gilydd batrymau o addoliad a bywyd sacramentaidd, arwyddion sancteiddrwydd a sel, sydd yn amlwg yn rhoddion Crist.

b. Bwriadwn wrando ar ein gilydd a chydastudio tystiolaeth ac arfer ein gwahanol draddodiadau, fel y diogelir ar gyfer yr Eglwys unedig a geisiwn y trysorau a ymddiriedwyd inni pan oeddym ar wahan.

VII

a. Cydnabyddwn yn ein gilydd yr un gofal am iawn lywodraeth yn yr Eglwys er cyflawni ei chenhadaeth.

b. Bwriadwn geisio ffurf ar lywodraeth Eglwysig a fydd yn diogelu y gwerthoedd cadarnhaol y mae pob un wedi sefyll drostynt, fel y bydd i'r Eglwys ffurfio meddwl cytûn a gweithredu arno fel un corff ar bob lefel o gyfrifoldeb drwy offerynnau cyfansoddiadol.

Ni wyddom eto pa ffurf a gymer undeb.

Down at ein tasg yn agored i'r Ysbryd.

Credwn yr arwain Duw ei Eglwys i ffyrdd gwirionedd a thangnefedd, gan ei chywiros, ei chyfnerthu a'i hadnewyddu yn unol a meddwl Crist.

Am hynny yr ydym yn cymell ein holl aelodau i dderbyn ei gilydd yn yr Ysbryd Glan fel y mae Iesu Grist yn ein derbyn ni, ac i ddal ar bob cyfle i gyd-dyfu drwy gydweiddio a chydaddoli gyda dealltwriaeth a chariad o bob tu fel yr adnewydder hwy ym mhob lle ar gyfer cenhadu.

Gan hynny gwnawn y Cyfamod difrifol hwn yn awr gerbron Duw a gyda'n gilydd, i weithio a gweddïo mewn ufudd-dod unol i'n Harglwydd Iesu Grist, fel y caffom drwy'r Ysbryd Glân ein dwyn i un Eglwys weledig i wasanaethu gyda'n gilydd mewn cenhadaeth er gogoniant Duw Dad.

Y Bedyddwyr Cyfamodedig yng Nghymru, Eglwys Bresbyteraidd Cymru

Yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig, Yr Eglwys Fethodistaidd
Yr Eglwys yng Nghymru